

## **Bil y GIG (Indemniadau) Cymru i ddiwygio adran 30 (Cynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau etc rhai cyrff iechyd) Deddf GIG (Cymru) 20**

### **1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc.**

- ◆ *Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar fywydau plant, yn gadarnhaol ac yn negyddol?*
  - Mae'r Bil yn diwygio adran 30 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 mewn perthynas â chynlluniau ar gyfer bodloni colledion ac atebolrwyddau rhai o gyrff y gwasanaeth iechyd - mae'n benodol ac yn bendant ei ganolbwynt heb unrhyw effaith ar unrhyw adran arall o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 neu unrhyw Ddeddf arall sy'n ymwneud â Chymru.
  - Mae'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i sefydlu cynlluniau indemniad uniongyrchol trwy Reoliadau, a fydd yn fodd i greu'r Cynllun Atebolrwyddau Presennol (ELS). Y cynigion ar gyfer y Cynllun Atebolrwyddau Presennol yw indemnio Ymarferwyr Cyffredinol ar gyfer hawliadau esgeuluster clinigol hanesyddol yr adroddwyd arnynt, neu'r aed iddynt ond nad adroddwyd arnynt eto cyn 1 Ebrill 2019.
  - Mae'r ELS yn ddarostyngedig i ddiwydrwydd dyladwy boddhaol a negodi â'r sefydliadau amddiffyn meddygol. Bydd y trefniadau ELS yn cryfhau cadernid gwasanaethau meddygol cyffredinol ac yn darparu sicrwydd i gleifion mewn perthynas â hawliadau esgeuluster clinigol cyn hawliadau esgeuluster clinigol am iawndal cyn Ebrill 2019. Bydd hwn yn ganlyniad cadarnhaol i blant a phobl ifanc.
- ◆ *Sut y bydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant (ee plant sydd wedi dioddef profiadau niweidiol mewn plentyndod, plant sy'n byw mewn tlodi, plant ag anabledd, plant sy'n byw mewn aelwydydd Cymraeg a phlant mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ati)*

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant.

#### ***Pa dystiolaeth y gwnaethoch ei defnyddio i lywio eich asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr?***

Nid ydym wedi ceisio tystiolaeth gan blant neu eu cynrychiolwyr o gofio natur dechnegol y Bil.

- ◆ *Sut yr ydych chi wedi ymgynghori â phlant a phobl ifanc? Os nad ydych chi wedi gwneud hynny, eglurwch pam.*

Nid ydym wedi ymgynghori â phlant na phobl ifanc gan fod y Bil yn dechnegol ei natur.

- ◆ *Pa dystiolaeth arall fyddai'n llywio'r asesiad?*

Nid oes angen unrhyw dystiolaeth arall i lywio'r asesiad hwn.

## 2. Eglurwch sut mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant.

Yn yr adran hon mae angen asesiad sy'n rhoi barn wybodus ynghylch effaith debygol y cynnig ar hawliau plant o dan Gonfensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae'n hollbwysig eich bod yn osgoi'r dybiaeth bod y canlyniadau y bwriedir eu cael, fel y'u nodir uchod, yr un peth â'r effaith a ragwelir ar hawliau plant

Bydd angen i chi ystyried yn ofalus sut mae'r canlyniadau y bwriedir eu cael yn cysylltu â hawliau plant a pha effaith a gânt. Efallai y rhagwelir effeithiau sy'n wahanol i'r canlyniadau y bwriedir i'r cynnig eu cael.

Dylech:

- ◆ *Nodi pa erthyglau o'r Confensiwn sydd fwyaf perthnasol i'r cynnig.*

Er mai erthygl 24 sydd agosaf at fod yn fwyaf perthnasol "Mae gan bob plentyn yr hawl i gael yr iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da." Nid yw'n arbennig o berthnasol i'r Bil

- ◆ *Eglurwch a yw'r cynnig yn cynyddu i'r eithaf, yn cefnogi neu'n hyrwyddo hawliau plant o dan y Confensiwn, ac os ydynt, sut y gwnânt hynny, gan wneud cysylltiadau rhwng y canlyniadau a nodwyd yng nghwestiwn 1 a'r hawliau rydych chi wedi'u nodi.*

Bydd y Bil yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru'n gallu drafftio rheoliadau i sefydlu cynllun atebolrwyddau presennol a gefnogir gan y wladwriaeth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol . Bydd hyn yn rhoi hyder i gleifion a dinasyddion y caiff hawliadau hanesyddol eu bodloni os cânt eu derbyn. Mae hwn yn wasanaeth / hawl i bawb yng Nghymru.

- ◆ *Cofiwch fod hyrwyddo hawliau plant yn cynnwys: cynyddu mynediad plant at eu hawliau, neu wasanaethau a/neu adnoddau sy'n rhoi mynediad at hawliau, neu alluogi plant i gymryd rhan a manteisio ar eu hawliau. Dylech egluro sut mae'r cynnig yn cyflawni'r amcanion hyn, os o gwbl.*

Ni fydd unrhyw effaith

- ◆ *Eglurwch unrhyw effaith negyddol ar hawliau plant sy'n codi o'r cynnig, gan gynnwys unrhyw ostyngiad mewn adnoddau sydd ar gael i gefnogi polisïau neu raglenni.*

Ni fydd unrhyw effeithiau negyddol.

- ◆ *Wrth ystyried pob un o'r cwestiynau uchod, sicrhewch eich bod yn cadw mewn cof sut y bydd y cynnig yn effeithio ar hawliau gwahanol grwpiau o blant (ee plant sy'n byw mewn tloedi, plant ag anableddau ac ati)*

Ni fydd y cynnig yn effeithio ar wahanol grwpiau o blant

*Cyfeiriwch at unrhyw wybodaeth neu dystiolaeth sydd wedi llywio eich asesiad, gan gynnwys yr hyn a gasglwyd gan blant neu eu cynrychiolwyr.*

Ni fu angen ceisio dystiolaeth arall yn ymwneud â'r Bil Diwygio hwn.